

DATGANIADAU NEU RYWBETH GWELL?

**YMGYNGHORIAD RHAGARWEINIOL YNGHYLCH
OPSIYNAU AR GYFER NEWID I'R FFRAMWAITH
ASESIADAU A DATGANIADAU AAA STATUDOL**

**CRYNODEB O FARN GWEITHWYR
PROFFESIYNOL**

**Yr Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant
Ionawr 2008**

**D R A F F T
23.01.2008**

Cefndir

Yn dilyn argymhellion a wnaed mewn adroddiadau gan ESTYN, cynhaliodd y Comisiwn Archwilio a Cambridge Education Associates,* Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cymru adolygiad polisi yn ymwneud â'r fframwaith ar gyfer asesiadau a datganiadau statudol anghenion addysgol arbennig (AAA), (rhan 2 o adolygiad tri cham o AAA). Gwnaeth yr adroddiad ar yr adolygiad* 28 o argymhellion ar gyfer newid.

Cyfrannodd grŵp gorchwyl a sefydlwyd gan Gynulliad Cymru at yr adolygiad polisi a lluniodd saith opsiwn ar gyfer newid. Yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol lleihawyd nifer yr argymhellion hyn i dri. Argymhelliad cyntaf adolygiad polisi Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yw:

“.....ymgynggori'n eang â rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill i greu consensws a meithrin hyder cyn y gwneir unrhyw newidiadau sylfaenol i'r fframwaith asesu statudol.”

Felly, cynhaliwyd ymgynghoriad rhagarweiniol ynghylch yr opsiynau posibl hyn ar gyfer newid â rhieni ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2007 (gweler adroddiad mis Medi 2007) ac fe'i dilynwyd bellach gan ail gam o ymgynghoriadau â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau ail gam y broses ymgynghori ragarweiniol.

Y Broses Ymgynghori

Cyfarfodydd Rhanbarthol

Fel gyda'r ymgynghoriad â rhieni, trefnwyd cyfarfodydd ym mhob un o bedair ardal consortium yr awdurdodau lleol, a chynhaliwyd dau gyfarfod ar wahân yng Ngogledd Cymru, (yn y gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin).

Gofynnwyd i bob AALI enwebu chwe chynrychiolydd ac argymhellwyd y dylent gynnwys y canlynol:

- **Pennaeth ysgol gynradd ac ysgol uwchradd**
- **Cydlynnydd AAA cynradd ac uwchradd (SENCO)**
- **Swyddog AAA/Cynhwysiant o'r AALI**
- **Seicolegydd addysg**

At hynny anfonwyd gwahoddiadau i anfon cynrychiolwyr at y canlynol:

- **Gwasanaethau Cymdeithasol**
- **Cydgysylltwyr Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (CYYP)**
- **Byrddau Iechyd Lleol**
- **Ymddiriedolaethau Iechyd**
- **Cymdeithasau proffesiynol athrawon**
- **Gyrfa Cymru**
- **Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol**
- **Darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA)**
- **Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC)**
- **Fforwm (Sefydliad sy'n cynrychioli colegau a sefydliadau AB yng Nghymru).**
- **Cymdeithas Genedlaethol y Prif Seicolegwyr Addysgol (NAPEP)**

Cyn y cyfarfodydd, dosbarthwyd y dogfennau canlynol i sicrhau bod pob cyfranogwr yn cael cyfle i baratoi'n briodol;

- **Datganiadau neu Rywbeth Gwell? (crynodeb o'r tri opsiwn ar gyfer newid)**
- **Crynodeb o Farn Rhieni (adroddiad o gam cyntaf y broses ymgynghori)**
- **Amserlen ar gyfer y diwrnod.**

Hwyluswyd y cyfarfodydd rhanbarthol ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a SNAP Cymru a chofnodwyd y trafodaethau yn fanwl. Defnyddiwyd y byrddau stori mawr a oedd yn dangos y tri opsiwn a ddefnyddiwyd at ddibenion ymgynghori â rhieni a dosbarthwyd copïau printiedig yn y cyfarfodydd fel cyfrwng i helpu pobl i ddeall. Estynnwyd gwahoddiad agored hefyd i'r rhai a oedd yn mynychu'r cyfarfod gyflwyno ymatebion ysgrifenedig ychwanegol.

Dechreuodd pob cyfarfod gyda chyflwyniad llawn a oedd:

- yn crynhoi'r cefndir a'r cyd-destun ar gyfer yr ymgynghoriad rhagarweiniol,
- yn amlinellu'r tri opsiwn ar gyfer newid,
- yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad â rhieni a gofalwyr,
- yn esbonio'r broses ar ôl yr ymgynghoriad rhagarweiniol hwn.

Dilynwyd hyn gan weithdai llai o faint lle:

- rhoddwyd eglurhad ar y tri opsiwn ar gyfer newid,
- gwahoddwyd barn y rhai a oedd yn bresennol ar:
 - y tri opsiwn
 - y system gyfredol
 - barn rhieni/gofalwyr
- ceisiwyd barn y cyfranogion hefyd ar y “nodweddion hanfodol” sydd eu hangen i sicrhau system asesiadau a datganiadau statudol effeithiol yng Nghymru.

Cyfarfodydd ymgynghori eraill

Trefnwyd digwyddiad ymgynghori penodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio i sefydliadau gwirfoddol sy'n cynorthwyo plant ag AAA neu anableddau. Roedd y sefydliadau hyn wedi'u gwahodd i enwebu rhieni a gofalwyr i ddod i gyfarfodydd prynhawn y digwyddiadau rhanbarthol yn ystod cam cyntaf y broses ymgynghori. Fodd bynnag, roedd nifer o sefydliadau wedi gofyn i'w staff gael cyfle i gyfrannu at y broses ymgynghori.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori ar wahân mewn ymateb i geisiadau gan gyrff a rhwydweithiau cenedlaethol penodol ac ati. Ymhlith y rhain roedd:

- Y Tribiwnlys AAA yng Nghymru (SENTW)
- ESTYN*
- Panel Cyngori ar Lwyth Gwaith Ysgolion (SWAP)
- Rhwydwaith cynghorwyr AAA Cymru
- NAPEP*
- Is-grŵp AAA ac anableddau'r panel cyngori gweinidogol dros anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant.

* Ni chynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn y pen draw ond cyflwynodd y ddau sefydliad ymatebion ysgrifenedig.

Ymatebion Ysgrifenedig

Cafwyd ymatebion ysgrifenedig gan y sefydliadau canlynol:

- **Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNID)**
- **ESTYN (ddim eto)**
- **NAPEP**
- **Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS)**
- **NCH**
- **Cyngor Cymru i'r Byddar**
- **Cyngor Cymru i'r Deillion**
- **Plant yng Nghymru**
- **TAAAC**

Crynodeb o'r Safbwyntiau a Fynegwyd

OPSIWN 1 – MÂN NEWIDIADAU

Cafwyd ymatebion cadarnhaol mewn perthynas â'r canlynol:

- o **Darparu *cynghorydd gwella ysgolion* a'r ffocws ar feithrin gallu mewn ysgolion prif ffrwd. Mynegwyd y farn hefyd y byddai'r model hwn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau effeithiolrwydd/gwella ysgolion mewn AALiau yn gweithio'n agosach ag adrannau AAA/Cynhwysiant.**
- o **Cyfansoddiad y *panel amlasiantaethol*. Agweddau penodol yr ystyriwyd eu bod yn gadarnhaol oedd:**
 - **Rôl effeithiol i rieni.**
 - **Cynnwys cynrychiolwyr ieuchyd.**
 - **Y byddai'n arwain at ymyrraeth gynharach gan therapyddion.**
 - **Y câi ei ystyried yn decach na'r system gyfredol.**
- o **Newid y ffocws i'r ysgol.**
- o **Y *cynllun datblygu unigol*. Yn benodol, y pwyslais sy'n cael ei roi ar ddeilliannau, hy y cynnydd y mae'r plentyn yn ei wneud a'r hyn y mae'r ysgol yn ei wneud i'w gynorthwyo.**
- o **Y *gweithiwr proffesiynol arweiniol* / *gweithiwr allweddol*.**
- o **Y dull gweithredu mwy rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn.**
- o **Dull gweithredu cyffredin ledled Cymru.**

- o Y system ar gyfer adolygu'r datganiadau.
- o Y ffaith bod rôl allweddol y SECO wedi'i chydabod.
- o Nad oedd yn gofyn am newid y statws cyfreithiol cyfredol.
- o Adnoddau ysgol yn cael eu dirprwyo.

Gwnaed rhai sylwadau cadarnhaol gyda rhai amodau. Ymhlith y rhain roedd:

- o Dethol rhai aelodau o bersonél y gwasanaethau iechyd ar y panel amlasiantaethol fyddai'r unig ffordd o sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn rheolaidd
- o Byddai angen darparu hyfforddiant a chymorth effeithiol i ysgolion prif ffrwd.
- o Mae angen diffinio rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r model yn y CDU.
- o Byddai angen systemau cyfathrebu a phatrymau gweithio cydgysylltiedig effeithiol rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol yn y model hwn a chyda rhieni.

Cafwyd ymatebion negyddol ynghylch:

- o Yr angen am Wasanaeth Eirioli.
- o Yr angen am newidiadau strwythurol mawr.
- o Pryder ynghylch y lefel o ymrwymiad sydd ei angen gan asiantaethau eraill a'u capasiti i'w gyflawni.
- o Nid yw'r model yn ymestyn hawliau i'r rhai nad oes ganddynt ddatganiad ar hyn o bryd, hy y rhai ar raglen *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*.
- o Pryder ynghylch pwysau cynyddol posibl ar gyllidebau.
- o Cynnydd tebygol mewn llwyth gwaith.
- o Cynnydd tebygol mewn llwyth gwaith ar baneli AALLau.
- o Byddai'r broses bedwar cam ar gyfer ymdrin â chwynion yn cymryd gormod o amser.
- o Cynnwys cynghorwyr gwella ysgolion mewn achosion unigol.
- o Nid oes gan y rhan fwyaf o wasanaethau gwella ysgolion yr arbenigedd perthnasol.
- o Mae'r model o bosibl yn fwy biwrocrataidd ac yn ddrutach. Lleisiwyd pryder arbennig ynghylch rôl y cynghorwyr gwella ysgolion newydd.

- o Mae diffyg capasiti i sicrhau dulliau gweithredu cyson ledled Cymru.
- o Byddai niferoedd uwch o ddisgyblion â datganiadau yn anodd eu rheoli.
- o Nid oes gan ysgolion llai o faint y capasiti i ddarparu ar gyfer disgyblion ag AAA; mae clystyrau o ysgolion yn hanfodol.
- o Nid oes unrhyw sôn am Wasanaethau Plant
- o Nid yw barn plant yn cael ei hadlewyrchu yn y model.
- o Mae paneli yn fiwrocrataidd iawn ar hyn o bryd.
- o Ni ddarperir ar gyfer plant ag AAA nad oes ganddynt ddatganiad. Mae hon yn broblem benodol yn achos plant dros 16 oed.
- o Ni thynnir sylw at strategaethau ymyrraeth gynnar yn y model hwn.

OPSIWN 2 AIL-LUNIO EIN DULL GWEITHREDU

Cafwyd ymatebion cadarnhaol ynghylch:

- o Y modd y câi *gofal cofleidiol* ei gynllunio a'i ddarparu. Byddai'r model yn darparu ar gyfer cymorth teulu i'r rhai mwyaf anghenus.
- o Gall darpariaeth ar gyfer disgyblion ar raglenni *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* fod yn effeithiol a gellid ei hystyng heb fod angen datganiad.
- o Gellid ymestyn darpariaeth y tu hwnt i 19 oed, hyd at 25 oed.
- o Darparu cymorth eiriolaeth.
- o Galluogi plant i drosglwyddo'n ddidrafferth rhwng cyfnodau yn y system addysg.
- o Paneli AALlau yn llawer mwy ymarferol.
- o Llwyth achosion llai yn arwain at gydgyssylltu mwy effeithiol a llwyth gwaith mwy hylaw. Dylai fod yn haws diweddarau datganiadau.
- o Dylai rhyddhau arian alluogi ymyriadau cynharach a mwy hyblyg heb fod angen datganiad.
- o Cydnabyddir darpariaeth cyn ysgol.
- o Gallai gweithwyr allweddol helpu i ddileu rhwystrau o bosib.
- o Y model yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn holistaidd ei natur.

- o Yn ei gwneud yn bosibl i ganolbwyntio ar yr achosion â'r flaenoriaeth uchaf.
- o Y cylch parhaol o asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu.
- o Yr asesiad amlasiantaeth manwl a wneir dros amser.

Cafwyd sylwadau negyddol ynghylch:

- o Nid yw diogelwch cyfreithiol a'r hawl i apelio yn cynnwys y categori *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*. Ni ellid gwarantu y byddai'r disgyblion hyn yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.
- o Mae gan lawer o'r disgyblion sy'n perthyn i gategori *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* anghenion sy'n anodd eu hadnabod ac sy'n gofyn am fewnbwn asiantaethau eraill. (ee llawer o ddisgyblion ag ASD neu anawsterau dysgu ac iaith penodol)
- o Mae angen darparu cymorth eiriolaeth i rieni disgyblion ar raglenni *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*.
- o Mae'r gyfran o ddisgyblion sy'n cael datganiad, sef 0.5%, yn rhy fach. Mae angen rhywfaint o hyblygrwydd i sicrhau y cynhwysir pawb sydd ag anghenion mwy cymhleth.
- o Mae'r plentyn neu'r person ifanc ei hun hefyd yn gallu nodi bod ganddynt angen.
- o Mawr angen ailaddysgu pawb i fabwysiadu system mor wahanol.
- o Byddai'n anodd rhyddhau staff yn gyson o bob sector o'r Panel.
- o Mae cryn amheuaeth ynghylch a fydd y model hwn yn sicrhau arbedion, ac os bydd yn gwneud hynny, a gânt eu neilltuo'n effeithiol.
- o Ni fydd gan rieni disgyblion, nad ydynt yn destun datganiad mwyach, yr hawl i gael Lwfans Byw i'r Anabl mwyach, a allai beri i ragor o deuluoedd ddisgyn o dan y llinell dlodi.
- o Câi ysgolion eu dadrymuso gan bŵer cynyddol paneli AALlau.

OPSIWN 3 Y DULL PASBORT

Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynghylch:

- o Dyma'r opsiwn mwyaf cyffrous a heriol. Mae'n system fwy cynhwysol.
- o Mae'r cylch parhaol, hyblyg ar gyfer cynllunio, gweithredu ac adolygu yn dda. "Mae rhannu a diweddarau gwybodaeth yn rheolaidd yn arfer da."
- o Mae clystyrau o ysgolion yn sicrhau gwell cydweithredu rhwng ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd ac uwchradd. Byddai'n hwyluso ymatebion lleol i anghenion lleol.
- o Mae'n system lawer mwy agored a thryloyw. Gall unrhyw un nodi angen unrhyw bryd. "Byddai'n helpu rhieni i dderbyn y system ac ymddiried ynddi yn well."
- o Mae'r system yn fwy addas ar gyfer cynllunio'r broses o drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- o Byddai'r Pasbort yn symud gyda'r plentyn lle bynnag y câi ei addysgu yng Nghymru.
- o Gallai'r Pasbort gael ei ddefnyddio y tu allan i'r ysgol i helpu'r plentyn i fanteisio ar wasanaethau eraill.
- o Mae'r plentyn neu'r person ifanc yn cymryd rhan.
- o Câi'r ffeil electronig ei chynnal gan Ymddiriedolaethau lechyd a gellid ei defnyddio i ddatblygu system amlasiantaethol.
- o Gellid ei gysylltu â'r *system Llyfr Oren*.
- o Meithrin gweithio mewn partneriaeth.
- o Hwyluso dull gwella ysgol yn dda.
- o Y Cydlynnydd AAA yw'r person gorau i gyflawni'r ddolen gyswllt hanfodol.
- o Byddai'n lleihau gwaith papur a'r cyfarfodydd diangen.

Cafwyd sylwadau negyddol ynghylch:

- o Mae'n rhy fiwrocrataidd i ysgolion. Byddai pwysau enfawr ar ysgolion i sicrhau bod y system yn gweithio ac ni fyddai'r gwaith ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â hyn yn arwain at welliannau.
- o Mae angen rhoi mwy o amser i Gydlynwyr AAA gydgysylltu darpariaeth. Rôl rheoli ydyw sy'n golygu na fyddent yn addysgu plant mwyach. Gallai hyn achosi anawsterau recriwtio.

- o Nid oes gan lawer o Gydlynwyr AAA a phenaethiaid yr arbenigedd sydd ei angen.
- o Ni all y panel clwstwr penaethiaid ymateb yn ddigon cyflym. At hynny nid yw'n debyg y byddai ganddynt ddigon o arbenigedd nac y byddent yn ddiuedd. Lle y ceir clystyrau nid ydynt bob amser wedi cydweithio'n dda.
- o Byddai'n arwain at ymgiprys am rym rhwng penaethiaid. Byddai penaethiaid mwy llafar neu flaenllaw yn cael cyfran annheg o'r arian.
- o Mae'n debyg i'r *system Llyfr Oren*, nad yw'n gweithio.
- o Byddai cyfrinachedd yn broblem gyda'r panel clwstwr.
- o Ni fyddai ailgylchu neu gylchdroi cymorth o'r naill ddisgybl i'r llall yn ymarferol.
- o Byddai'n anodd iawn sicrhau tegwch ar draws ysgolion ac AALlau
- o Byddai adnoddau ychwanegol sy'n cael eu dirprwyo yn annigonol i alluogi'r clystyrau i weithredu'n effeithiol. Gallai fod goblygiadau cost enfawr i hyn.
- o Byddai diffyg diogelwch cyfreithiol yn amhoblogaidd iawn ymysg rhieni.
- o Ni fyddai'r model yn hwyluso gwaith rhyngasiantaethol.
- o Byddai angen gwneud llawer o waith cynllunio, comisiynu a monitro o'r canol, a fyddai'n ddrud.
- o Yr angen am ddulliau asesu cadarn.
- o Y problemau y byddai'n eu hachosi i ddisgyblion sy'n symud y tu allan i Gymru.
- o Y goblygiadau enfawr o ran hyfforddiant.
- o Y cynnydd tebygol yn nifer y disgyblion a gâi eu hatgyfeirio i ysgolion arbennig ac ati, yn enwedig lle y mae costau sylweddol yn gysylltiedig â diwallu anghenion disgybl.
- o Ni ddarperir ar gyfer myfyrwyr ôl-16 o dan y model hwn.
- o Ni chanolbwyntir digon ar bersectif y plentyn.
- o Mae'r term *pasbort* yn nawddoglyd, yn cael ei orddefnyddio ac yn anaddas.

Sylwadau cyffredinol a wnaed ynghylch y tri opsiwn

- o Roedd yn well gan nifer go dda o'r ymatebwyr gyfuniad o bob un o'r tri opsiwn, ee. defnyddio CDU gydag opsiwn dau a thri.
- o Mae angen darparu ar gyfer disgyblion a addysgir gartref mewn unrhyw opsiwn yn y dyfodol.
- o Mae angen cadw'r Tribiwnlys AAA.
- o Mae angen gwasanaeth eirioli, sy'n annibynnol ac a all gynorthwyo rhieni, a lle y bo angen, y plentyn neu'r person ifanc. Fodd bynnag, mae angen nodi rôl gwasanaethau cyfryngu hanfodol a rôl gwasanaeth eirioli yn gliriach.
- o Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cysyniad o *weithwyr proffesiynol arweiniol / gweithiwr allweddol*. Fodd bynnag, mae angen nodi eu rôl yn gliriach a phwy fyddai fwyaf addas i'w chyflawni o fewn y system gyfredol. Roedd rhai o'r farn y byddai'r rôl yn gorgyffwrdd â rôl y Cydlynnydd AAA ac roedd rhai o'r farn y dylai'r unigolyn hwn fod yn annibynnol.
- o Mae hanfodol rhoi'r pwyslais ar wella ysgolion.
- o Mae angen cydnabod llais y plentyn neu'r person ifanc.

Y SYSTEM GYFREDOL

Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynghylch:

- o Yr angen i amlinellu anghenion a darpariaeth yn fanwl ac yn benodol.
- o Diogelwch cyfreithiol a'r hawl i apelio a roddir gan *Ddatganiad*.
- o Y broses asesu gyfredol.
- o Dull gweithredu graddol rhaglenni *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*.
- o Y prosesau clir a amlinellir yng Nghod Ymarfer AAA.
- o Y partneriaethau da a sefydlwyd gan rai AALlau ag ysgolion a rhieni.
- o Y canllawiau a'r cymorth a roddir i ysgolion gan AALlau.
- o Lle mae cyfranogiad amlasiantaeth yn cael ei ddefnyddio i roi cymorth. Ystyrir bod hyn yn gweithio

orau lle y mae cytundebau lefel gwasanaeth sy'n diffinio rolau ac adnoddau.

- o Y trefniadau ar gyfer cynlluniau pontio.**
- o Y broses Adolygu Flynyddol.**
- o Rhieni wedi dod yn fwy gwybodus am y system gyfredol dros amser.**

Cafwyd sylwadau negyddol ynghylch:

- o Mae'r amserlenni ar gyfer y broses asesu yn rhy hir.**
- o Mae'n anodd cwrdd â'r amserlenni.**
- o Hyfforddiant annigonol i bob aelod o staff ym mhob cyd-destun.**
- o Proses y Tribiwnlys AAA yn achosi niwed hirdymor i berthynas pobl â'i gilydd.**
- o Nid yw'r broses adolygu flynyddol yn cael ei gweithredu'n gywir yn aml.**
- o Mae'n cymryd gormod o amser i ddiwygio datganiadau.**
- o Mae'r system yn rhy fiwrocrataidd.**
- o Mae geiriad datganiadau yn aml yn rhy anhyblyg, mae angen mwy o hyblygrwydd. Ar ôl ei gyhoeddi, mae'n anodd ei newid.**
- o Nid yw datganiadau yn cael eu deall yn aml y tu allan i fyd Addysg.**
- o Nid yw'r Cod Ymarfer AAA a system y Cydlynwyr AAA yn aml yn gweithio fel y dylent.**
- o Nid oes unrhyw systemau cwyno cywir ar gyfer y rhai ar raglenni *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*.**
- o Cynnwys y Cod Ymarfer AAA yw'r unig ganllawiau. Mae angen iddynt fod yn statudol.**
- o Mae angen symleiddio gweithdrefnau cwyno ar gyfer y rhai â datganiadau. Treulir gormod o amser a defnyddir gormod o adnoddau yn ymdrin ag ymglyfreitha ac yn ceisio ei osgoi.**
- o Nid yw'r system ar gyfer datrys anghydfod yn gweithio'n effeithiol.**
- o Mae meini prawf, systemau a dulliau gweithredu yn anghyson drwy'r system.**
- o Mae'r system gyfredol yn fiwrocrataidd iawn.**

- o Ni ddyrennir digon o adnoddau i AAA. Yn aml nid oes gan wasanaethau ac ysgolion y capasiti i ddarparu adnoddau.
- o Dim ond er mwyn galluogi i gyllid gael ei ddarparu y mae llawer o ddatganiadau yn cael eu rhoi i ddisgyblion. Ystyrir bod hyn yn gamddefnydd o'r system a'i fod yn wastraffus iawn.
- o Nid yw'r system *cynllunio pontio* (14+) yn gweithio.
- o Nid oes gwasanaeth eirioli ar gyfer pobl ifanc ag AAA.
- o Ni ellir cael gafael ar gymorth eiriolaeth ar gyfer rhieni yn aml.
- o Nid yw'r gwaith o weithredu datganiadau yn cael ei fonitro'n effeithiol.
- o Mae angen gwella arferion gwaith ym mhob maes.
- o Nid yw'r derminoleg a ddefnyddir mewn datganiadau yn rhoi darlun cyfannol o blentyn.
- o Nid oes digon o waith rhyngasiantaethol.

NODWEDDION HANFODOL SYSTEM DDIWYGIEDIG

1. Datrys problemau cyfredol sy'n ymwneud â chyllido darpariaeth AAA:

- o Diffyg cyffredinol o gyllid ar gyfer darpariaeth sy'n cael ei llywio gan anghenion.
- o Nid yw cyllidebau AAA ysgol ar wahân i brif gyllideb yr ysgol. Mae angen neilltuo arian ac mae angen gwella tryloywder cyllidebau AAA ysgolion ac AALLau gryn dipyn.
- o Nid yw cyllidebau addysg AALLau wedi'u neilltuo.
- o Mae paneli yn tueddu i wneud penderfyniadau ynghylch darpariaeth sy'n seiliedig ar anghenion sy'n rhannol gysylltiedig â'r adnoddau sydd ar gael.
- o Mae angen gwahanu systemau ariannu a phrosesau asesu anghenion yn amlwg.
- o Mae angen sicrhau bod gan AALLau gyllidebau wrth gefn realistig.
- o Mae angen mwy o atebolrwydd o ran y modd y dosberthir adnoddau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â gwariant.

2. Mae model rhyngasiantaethol datblygedig yn hanfodol i'r rhai y mae angen mwy nag un asiantaeth arnynt i ddiwallu eu hanghenion. Byddai angen i'r model hwn:

- o Sicrhau bod darpariaeth wedi'i hariannu sy'n gyfreithiol rwymol yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r sector lechyd.**
- o Darparu cynllun unigol, yn seiliedig ar fframwaith asesu cyffredin.**
- o Datblygu dulliau adolygu unigol.**
- o Defnyddio diffiniadau a thermau cyffredin.**
- o Datblygu cronfeydd data cyffredin a darparu gwybodaeth hawdd ei deall i bob asiantaeth**
- o Cydweithredu ar gynnal asesiadau ac wrth roi cymorth, mewn ysgolion a chyda'r teuluoedd.**
- o Bod yn ddatblygedig yng nghyd-destun y Cynllun Plant a Phobl Ifanc**
- o Sefydlu targedau perfformiad a thargedau strategol cyffredin sy'n ymwneud â'r grŵp cleientiaid hwn.**
- o Sicrhau bod trefniadau comisiynu ar y cyd yn cael eu gwneud yn orfodol.**

3. Mae cysondeb yn hanfodol mewn AALlau ledled Cymru a rhwng ysgolion o fewn AALlau. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu rhagor o gyfarwyddyd i ddatblygu meini prawf a dulliau gweithredu cyffredin.

4. Mae angen monitro AALlau ac ysgolion yn drylwyr i sicrhau:

- o Tegwch.**
- o Cysondeb.**
- o Bod Cod Ymarfer AAA yn cael ei weithredu'n briodol.**
- o Bod adnoddau dirprwyedig yn cael eu defnyddio'n briodol.**

Y farn gyffredinol oedd bod angen i unrhyw system fonitro gael ei llywio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Lle y nodwyd diffygion yn y system, roedd angen pwerau i sicrhau cydymffurfiaeth.

Ystyriwyd nad yw fframwaith archwilio cyfredol ESTYN yn cael fawr ddim effaith ar ddiffygion difrifol yn y sector prif ffrwd. Lleisiwyd amrywiaeth o safbwyntiau o ran pwy a ddylai fod yn gyfrifol am fonitro'r system gan gynnwys: AALlau, gwahanol asiantaethau gan gynnwys timau o fewn y sector gwirfoddol, y Tribiwnlys AAA, ESTYN, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid ffurfio paneli annibynnol i fonitro effeithiolrwydd a'r weithdrefn gwyno.

- 5. Y farn gyffredinol oedd bod meithrin capasiti ysgolion prif ffrwd yn elfen hanfodol o'r fframwaith sydd i ddod. Cododd nifer o ymatebwyr y pwynt bod ysgolion sy'n darparu'n dda ar gyfer disgyblion ag AAA bron bob amser yn "ysgolion da." Ystyriwyd ei bod yn hanfodol cynnwys gwasanaethau effeithiolrwydd / gwella Ysgolion AALlau. Fodd bynnag, mynegwyd amheuan ynghylch yr wybodaeth a'r arbenigedd mewn perthynas â materion AAA o fewn y gwasanaethau hyn a ddarperir gan AALlau.**

Dylid ystyried rôl Timau Gwella Ardal arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â hyn.

Dylai'r prosesau asesu, cynllunio ac adolygu ar gyfer disgybl ag AAA gynnwys ffactorau ysgol. (gweler opsiwn 1)

- 6. Pwysleisiwyd yr angen am strategaeth hirdymor, gynhwysfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol a hyfforddiant ar gyfer pob lefel o staff ysgol ym mhob digwyddiad ymgynghori. Awgrymodd llawer fod angen rhaglenni hyfforddi cyffredin ar gyfer staff o AALlau ac asiantaethau eraill.**
- 7. Roedd rôl Cydlynwyr AAA yn peri pryder yn gyffredinol. Cytunodd nifer fawr o'r ymatebwyr fod Cydlynwyr AAA yn ffactor hanfodol bwysig wrth benderfynu ar ddarpariaeth brif ffrwd effeithiol ac y dylent:**
- o Fod yn athrawon â chyfrifoldeb rheoli sy'n cymryd rhan mewn timau rheoli ysgolion.**

- o Meddu ar gymhwyster gorfodol.
 - o Bod yn llawn amser neu y dylai fod ganddynt gryn dipyn o amser rhyddhau.
 - o Cael eu rhannu rhwng ysgolion llai o faint.
- Cafwyd nifer o awgrymiadau y gallai rhai agweddau ar rôl y Cydlynnydd AAA gael eu cyflawni gan gymorth gweinyddol neu gynorthwyywyr addysgu ac y byddai hynny'n fuddiol.

8. Cytunodd nifer fawr iawn o'r ymatebwyr y dylid ymestyn y diogelwch cyfreithiol rwymol a roddir i adnoddau a hawliau i apelio i'r Tribiwnlys AAA i gynnwys disgyblion ar raglenni *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*. Gwnaed y pwynt hefyd fod angen gwarantu bod amrywiaeth eang o wasanaethau arbenigol sydd eu hangen i gynorthwyo ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion unigol ar gael.

9. Ym mha fodelau bynnag a ddatblygir ar gyfer fframwaith gwasanaethau statudol yn y dyfodol, mae angen mesurau effeithiol er mwyn sicrhau:

- o Strategaethau ymyrraeth gynnar ac atal da.
- o Cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda er mwyn tyfu'n oedolyn ac sy'n ymgorffori Cynlluniau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (PCP).
- o Hawl gyson i ddarpariaeth ôl-16, lle y bo'i hangen. Dadleuodd llawer fod achos da dros ymestyn darpariaeth hyd at 25 oed ar gyfer y rhai ag anawsterau mwy sylweddol.
- o Partneriaeth effeithiol gyda rhieni, i feithrin hinsawdd o empathi ac ymddiriedaeth. Bydd hyn yn gofyn am newid i'r diwylliant sy'n bodoli.
- o Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyfrannu at y prosesau nodi, asesu ac apelio.
- o Darpariaeth gwasanaeth cyffredinol ar gyfer Cymorth eiriolaeth, cyfryngu a system o weithwyr allweddol / gweithwyr proffesiynol arweiniol.
- o Ystod briodol o ddarpariaeth AAA Cyfrwng Cymraeg.
- o Amserlenni byrrach ar gyfer asesiadau ac amserlenni ychwanegol ar gyfer ymdrin â phryderon a chwynion.

- o **Systemau cynllunio ac adolygu hyblyg a hawdd eu defnyddio (opsiwn 3).**